| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Cymorth Tîm y Cynllun Tai Gwarchod |
| **Yn atebol i:** | Y Rheolwr Gwasanaethau Cymorth a Phobl Hŷn |
| **Daliadaeth:** | Parhaol |
| **Cyflog:** | £12.62 yr awr |
| **Oriau:** | 16 awr yr wythnos |

**Pwy yw Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf**

Mae Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf wedi'i leoli yng nghalon Rhondda Cynon Taf yn ne Cymru odidog. Rydym yn falch o'n cymunedau a'n hanes wedi'i wreiddio'n ddwfn o ran darparu cartrefi a chefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt. Mae ein cynllun corfforaethol yn amlinellu rhagor o fanylion am ein gweithgareddau, sy'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hamcanion allweddol.

Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 2000 o gartrefi ar rent, gan gynnwys 4 cynllun cartrefi i bobl hŷn, dwy loches i fenywod a nifer o brosiectau tai â chymorth sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae ein his-gwmni hynod uchel ei barch, Gofal a Thrwsio Cwm Taf, yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn neu anabl sy'n byw mewn cartrefi preifat ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ychwanegiad diweddar at y Grŵp yw Down to Zero, sef is-gwmni sy'n canolbwyntio ar liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd, gan olrhain ôl troed carbon y Grŵp a chynnig hyfforddiant, gwirfoddoli a buddion uniongyrchol yn ôl i'n tenantiaid ac i'r gymuned ehangach.

Yn anad dim, sefydliad pobl ydym ni, sy'n angerddol am ddarparu gwasanaethau a chymorth gwych, bod yn gyflogwr da a bod yn bartner uchel ei barch yn ein rhanbarth ac ar draws Cymru.

**Prif Ddiben y Rôl**

Cyfrifoldeb Cymorth Tîm y Cynllun Tai Gwarchod yw goruchwylio'r rheolaeth o ddydd i ddydd ar Dai Gwarchod, gan ddarparu cymorth i drigolion a'u grymuso i fyw'n annibynnol. Bydd y rôl yn rhoi cwsmeriaid yn gyntaf, gan ddangos dealltwriaeth o'r materion sy'n bwysig i denantiaid sy'n byw mewn Tai Gwarchod. Bydd Cymorth Tîm y Cynllun Tai Gwarchod yn greadigol ac yn gefnogol, gan gynnig gwasanaeth rhagorol o ran gwasanaeth cwsmeriaid a rheolaeth ar dai.

Trwy ddatblygu perthnasoedd effeithiol yn fewnol ac yn allanol, bydd Cymorth Tîm y Cynllun Tai Gwarchod yn cyfeirio trigolion at asiantaethau trydydd parti amrywiol, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, y GIG, Adrannau Budd-daliadau Tai Awdurdodau Lleol a darparwyr cymorth arbenigol.

Bydd Cymorth Tîm y Cynllun Tai Gwarchod yn ymweld â'r trigolion yn rheolaidd i gynnal gwiriadau lles os bydd angen a bydd yn eu cynorthwyo i gael at wasanaethau eraill, yn ogystal ag annog

cyfleoedd i'n tenantiaid a'n cymunedau lleol wella'u lles ariannol. Bydd Cymorth Tîm y Cynllun Tai Gwarchod yn mynd ati i annog tenantiaid i gymryd rhan ac yn cefnogi cysylltiadau da rhwng y trigolion a gwasanaethau eraill.

Yn ogystal, bydd Cymorth Tîm y Cynllun Tai Gwarchod yn cynnal arolygiadau Iechyd a Diogelwch o'r cynllun yn ogystal â sicrhau gwiriadau Larwm Tân, ymarferion larwm tân a phrofion goleuadau argyfwng rheolaidd.

Hefyd, bydd disgwyl gweithio'n gadarn mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill fel awdurdodau lleol, yr Heddlu, asiantaethau cymorth a gwasanaethau eraill er mwyn datblygu ymagwedd amlasiantaeth at reoli tenantiaethau.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

- Sefydlu perthnasoedd da gyda'r tenantiaid a sicrhau eu lles trwy wiriadau achlysurol naill ai trwy'r system galwadau intercom neu gysylltiad wyneb yn wyneb.
- Cyflwyno tenantiaid newydd i'w cartref, gan roi gwybod iddynt am y cyfleusterau sydd ar gael iddynt yn y cynllun. Llenwi a llofnodi'r Cytundeb Tenantiaeth ac unrhyw ddogfennaeth fel bo'r angen.
- Hysbysu aelodau staff perthnasol pan fydd tenant neu deulu wedi rhoi rhybudd eu bod yn gadael, gan gyflawni'r gwiriadau priodol a phroses diwedd y denantiaeth.
- Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i denantiaid a helpu i gyflwyno pob agwedd ar reolaeth ar dai.
- Cyflawni nifer o dasgau Iechyd a Diogelwch gofynnol, gan gynnwys Arolygiadau Safle chwarterol a rhoi gwybod am unrhyw waith trwsio sy'n angenrheidiol, profion Larwm Tân wythnosol, ymarferion tân.
- Cynnal gwiriadau achlysurol o gyfarpar Lifeline yn y swyddfa, y fflatiau ac mewn ardaloedd cymunedol lle y bo'n berthnasol.
- Goruchwylio'r gwaith o lanhau ardaloedd cymunedol a chynnal a chadw'r tir, gan roi gwybod am unrhyw broblemau i'r Rheolwr Gwasanaethau Cymorth a Phobl Hŷn.
- Cefnogi ac annog trigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn y cynllun ac annog ymwneud ehangach gan y gymuned, heb amharu ar hawl trigolion i fyw'n annibynnol.
- Annog a chynorthwyo tenantiaid i roi gwybod am waith trwsio a gweithio'n agos gyda'r tîm gwaith trwsio i sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau i lefel foddhaol
- Adolygu anghenion ac asesiadau risg gyda thenantiaid bob 6 mis neu'n gynt, gan atgyfeirio am gymorth neu i wasanaethau statudol eraill, gan sicrhau bod anghenion yn cael eu bodloni mewn modd sydd bob amser yn parchu'u hurddas a'u preifatrwydd.
- Hwyluso gweithgareddau cymdeithasol, rheoli gosod yr ystafell i westeion a chasglu arian y drwydded deledu yn unol â gweithdrefnau.
- Bodloni ein gofynion am lywodraethu da, gan gynnwys rheoli amser, adrodd a chadw cofnodion gan ddefnyddio ein system CRM yn effeithiol.

- Rheoli'r broses o gyflawni eich gwaith eich hun i gydymffurfio â thargedau cost ac amser y cytunwyd arnynt gyda'r Cyfarwyddwr
- Cyfrannu at ddatblygiad y sefydliad, y tîm a'ch cydweithwyr trwy fynychu a chyfrannu at bob cyfarfod mewnol allweddol fel bo'r angen ac at gyfathrebu rhithwir.

**Mesurau Perfformiad Allweddol**

- Sicrhau bod llety'n cael ei gynnal i safon uchel trwy fonitro cydymffurfio â gofynion gwasanaethu nwy, rheolaethau legionella, profi larymau tân, systemau mynediad a galw wardeniaid, a monitro gwasanaethau dan gontract a ddarperir i'r cynllun, gan gofnodi'r rhain at ddibenion tystiolaeth ac adrodd.
- Cymryd rhan mewn cyfrifo costau gwasanaeth blynyddol a phroses ymgynghori, gan ddarparu data fel bo'r angen.
- Cyfrannu at y tîm tai ehangach i reoli tai yn rhagorol a hyrwyddo Cynon Taf fel darparwr Tai delfrydol.
- Rheoli cartrefi gwag a chynorthwyo â dyraniadau i leihau colledion pan fydd eiddo'n wag, gan sicrhau bod tenantiaid newydd yn cael eu cyflwyno'n llawn i'w cartref newydd a bod unrhyw anghenion cymorth eraill yn gysylltiedig â thai yn cael eu nodi.
- Nodi anghenion cymorth, lles ariannol a lles meddyliol trigolion a chyfrannu at atebion a fydd yn cynorthwyo'r tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau a'u hannibyniaeth lle y bo'n bosibl.
- Cynnal Asesiadau Risg Ymadael Personol a Chynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng lle bo'r angen a chymryd camau dilynol priodol
- Delio ag anghydfodau ar lefel isel rhwng cymdogion yn y cynllun tai gwarchod a rhoi cyngor a chymorth priodol i'r bobl sy'n gysylltiedig. Cofnodi nodiadau ffeil ar ddigwyddiadau'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyfrannu er mwyn helpu'r Swyddog Tai neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cymorth a Phobl Hŷn i ddatrys anghydfodau niwsans rhwng cymdogion os byddant yn gwaethygu.
- Cynnal cofnodion cywir o bob rhyngweithio â chleientiaid, gan ddilyn proffesiynoldeb, cyfrinachedd masnachol a'r GDPR
- Cyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth a'n brand yn y farchnadle trwy gyflawni eich cyfrifoldebau.

**Galluoedd Allweddol**

- Meithrin perthnasoedd
- Cyfeillgar ac empathig
- Arbenigedd mewn gwasanaeth cwsmeriaid
- Rheoli amser a rheoli prosiectau
- Gallu gweithio o dan bwysau a bod yn bwyllog
- Delio â gwrthdaro yn ddigynnwrf
- Hunangymhelliant a gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun

- Gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o gyfrifoldebau cyfreithiol a hawliau landlordiaid a thenantiaid a dyletswyddau asiantaethau statudol ac asiantaethau eraill o dan gyfraith tai a thenantiaeth
- Gwybodaeth dda am reolaeth ar dai, yn cynnwys Rheoli Tenantiaethau, Niwsans rhwng Cymdogion, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Rheolaeth yr Ystâd, Eiddo Gwag a Dyraniadau.
- Gwybodaeth dda am brosesau diwygio lles, budd-dal tai, y credyd cynhwysol ac adfer incwm
- Gwybodaeth dda am ymgynghori â thenantiaid a'u cyfranogiad, ac ymrwymiad i hyn
- Ymwybyddiaeth lawn o broblemau a datblygiadau Tai presennol o fewn y sector
- Chwaraewr tîm

**Manyleb yr Unigolyn**

Mae disgwyl i'n holl staff ymrwymo i werthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ein gweledigaeth a'n cenhadaeth a'r gwerthoedd sydd wedi'u cyflwyno yn ein Gwerthoedd sefydliadol (gweler Atodiad 1), a'u harddangos.

**Galluoedd Technegol**

- Sicrhau bod llety'n cael ei gynnal i safon uchel trwy fonitro cydymffurfio â gofynion gwasanaethu nwy, rheolaethau legionella, profi larymau tân, systemau mynediad a galw wardeniaid, a monitro gwasanaethau dan gontract a ddarperir i'r cynllun, gan gofnodi'r rhain at ddibenion tystiolaeth ac adrodd.
- Cyfrannu tuag at ddarparu gwasanaeth tai sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, gan sicrhau bod amgylchedd diogel a chefnogol yn cael ei ddarparu i denantiaid.
- Gallu cynorthwyo Arweinydd y Tîm i ddatblygu a chynnal proses ymgynghori effeithiol â thenantiaid
- Gallu creu deunydd o ansawdd uchel ar becynnau Microsoft Office allweddol – Excel, Word, Teams a PowerPoint
- Gallu defnyddio pob platfform cyfarfod a negeseua rhithwir allweddol yn annibynnol ac yn effeithiol – e.e. Teams, Zoom
- Profiad o ddefnyddio systemau CRM; yn benodol, byddai QL o fantais
- Bydd angen gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu wiriad manwl presennol gan y GDG sy'n gallu cael ei drosglwyddo.

**Dymunol:**

Byddai'n fuddiol hefyd pe bai gan ddeiliad y swydd:

- Brofiad blaenorol o weithio gyda phobl agored i niwed
- Cymhwyster Tai neu brofiad blaenorol o weithio ym maes tai

- Dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a gweithio ystwyth, gan hyrwyddo annibyniaeth mewn lleoliad Tai Gwarchod.
- Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg

**Atodiad 1:**

EIN GWELEDIGAETH – Rydym am fod yn rhan o gymunedau hapus, iach a llewyrchus yn y cymoedd, lle mae gan bawb gyfle i fyw'n dda. EIN PWRPAS – Rydym ni yma i ddarparu cartrefi a chefnogaeth wych i'r bobl sy'n rhan o'n cymunedau. EIN HYMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH – Mae amrywiaeth yn gyfrifoldeb ar bawb. Rydym yn rhoi pwys ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn eu hyrwyddo ar bob lefel ar draws y sefydliad.

Ein Gwerthoedd

**ANGERDD –** Rydyn ni'n poeni'n angerddol am yr hyn rydyn ni'n ei wneud

**PARCH** – Rydym yn trin pawb â pharch

**CYFRIFOLDEB** – Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd

**UNIONDEB** – Rydym yn cyflawni ein rolau yn onest ac yn ddidwyll

**RHAGORIAETH** – Rydyn ni bob amser yn gwneud ein gorau glas

**Amcanion allweddol:**

- Cefnogi cymunedau gwydn
- Darparu gwasanaethau rhagorol
- Cynyddu ein cyflenwad o gartrefi
- Diogelu ein cynaliadwyedd ariannol
- Buddsoddi yn ein trefniadau llywodraethu, ein pobl a'n systemau
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni nodau a rennir

Ar draws pob blaenoriaeth y mae:

- Tegwch a chydraddoldeb
- Gwerth am arian
- Lleihau ein heffaith amgylcheddol